# EFROG NEWYDD, UDA!

## 45MUNUD-1AWR

## AMCAN DYSGU

- Defnyddio mapiau o'r byd, atlasau a globau i adnabod y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r gwledydd, cyfandiroedd a chefnforoedd sy'n cael eu hastudio yn y cyfnod allweddol yma.
- Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol [er enghraifft, pell ac agos; chwith a dde], i ddisgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.
- Lleoli gwledydd y byd, gan ddefnyddio mapiau i ganolbwyntio ar Ewrop (gan gynnwys lleoliad Rwsia) a Gogledd a De America, gan ganolbwyntio ar eu rhanbarthau amgylcheddol, nodweddion allweddol ffisegol a dynol, gwledydd a dinasoedd mawr.
- Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol.



## ADNODDAU

- Cyflwyniad pwynt pwêr ar gyfer y wers.
- Bwyd gwahanol i'w gynnwys ar bitsa.

## BRASLUN Y WERS

1. Os yw'n berthnasol, ailadroddwch y wers flaenorol a phwyntiau daearyddol, gan ofyn i'r plant rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt a lleoli'r ardal ar fap o'r byd.
2. Ble chi'n meddwl mae hwn?
3. Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am Efrog Newydd?
4. Gofynnwch i'r plant leoli Unol Daleithiau America ar fap o'r Byd ac yna'n benodol Efrog Newydd gan ddod â geirfa fel dwyrain a gorllewin i mewn i gyfeirio at ddinasoedd eraill y gallai'r plant fod wedi clywed amdanynt (Los Angeles, San Francisco, Washington DC, Miami ayyb).
5. Trafodwch gyda'r plant y math o fwyd mae UDA - ac yn benodol Efrog Newydd - yn cael ei adnabod amdano:

*Mae'r Unol Daleithiau yn wlad fawr iawn gyda hinsawdd amrywiol. Pan fyddwn yn meddwl am fwyd Americanaidd, rydym yn aml yn meddwl am fyrgyrs, ond mae bwyd Americanaidd yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yno, ei dirwedd gyfoethog a'i hanes.*

*Roedd llawer o ryseitiau America Frodorol yn seiliedig ar ddull amaethyddiaeth y Tair Chwaer, lle roedd ffa, india-corn a phwmpen yn cael eu cylchdroi. Dechreuodd gwladychiaeth Ewropeaidd o Ogledd America 400 mlynedd yn ôl, a daeth â dylanwadau a chynhwysion newydd i'r wlad. Daeth pobl o Ewrop â grawn, planhigion a da byw o'u tiroedd, yn ogystal â llawer o ryseitiau.*

*Defnyddiodd yr ymsefydlwyr yr adnoddau naturiol oedd o'u cwmpas gan gynnwys ŷd, ffa, pwmpenni, twrci a physgod cregyn.*

PARHAU

*Mae'r amrywiaeth helaeth yma o gynhwysion wedi arwain at ryseitiau unigryw sydd wedi dod yn rhan o ddiwylliant coginio America. Er enghraifft:*

- *y math o gawl a elwir yn chowder a chacenni cranc, sydd â'u gwreiddiau yn Lloegr.*
- *Cafodd steil coginio Louisiana ei syniadau cynnar o fwyd Ffrengig.*
- *Dosbarthodd Eidalwyr eu pitsa a'u pasta enwog.*
- *Ychwanegodd yr Iseldiroedd gyffyrddiad melys gyda eu wafflau a fersiwn gynnar o'r donut*
- *Daeth Iddewon o Wlad Pwyl â bagelau.*
- *Paratôdd yr Almaenwyr eu pretzels a'u selsig eu hunain - rhagflaenwyr cŵn poeth enwog Efrog Newydd*

### *Gweithgaredd*

1. Mae Efrog Newydd yn enwog am eu pitsa. Beth yw prif gynhwysyn y saws ar bitsa?
2. Trafodwch y dewisiadau i gyd sydd ar gael i'w rhoi ar bitsa - gan ymhlaethu ar rai o'r cynhwysion. Pa eiriau mae nhw'n eu defnyddio i'w disgrifio?
3. Gofynnwch i'r plant i greu disgrifiadau amgen o domatos a llysiau eraill i annog pobl i'w bwyta nhw.
4. Pa gynhwysion mae'r plant yn hoffi rhoi ar eu pitsa?
5. Os ydyn nhw'n dweud pîn-afal atgoffwch y plant bod hwn weithiau'n cael ei alw'n bitsa Hawaii. Dewch o hyd i Hawaii ar fap y byd a dywedwch wrth y plant mai hon oedd y dalaith olaf i ymuno ag Unol Daleithiau America yn 1959.

### *Llenwi'r wybodaeth o'r wers ar y map*

O'r wybodaeth sydd wedi cael ei rannu yn y wers heddiw, cwblhewch y blwch ar fap y byd y plant sy'n berthnasol i Efrog Newydd.

## BRASLUN Y WERS

- Edrychwch ar wreiddiau Diwrnod Diolchgarwch.
- Gwnewch arolwg dosbarth o hoff bitsas y plant.

## GWEITHGAREDDAU PELLACH / GWAITH CARTREF



AM FWY O ADNODDAU ADDYSG ARBENNIG EWCH I:

EatThemToDefeatThem.com

© Veg Power CIC 2024

# EFROG NEWYDD, UDA

